# CRONFA GWASTADEDDAU'R RHYL

## PROSIECT CWBLHAWYD DIWEDDAR

### CENTRE OF SIGN SIGHT SOUND



Derbyniodd Centre of Sign Sight Sound £8,922.30 ar gyfer cynnal nifer o weithdai a chyrsiau addysgiadol ar gyfer unigolion. Y mathau o weithdai roeddent yn ei gynnal oedd iechyd a lles, cymorth cyntaf, gwastraff, ynni adnewyddadwy a llawer mwy. Yn anffodus gyda argyfwng Covid 19, nid oedd posib iddynt barhau i gynnal y gweithdai, felly aethent ati i greu dogfen gwybodaeth a fideos ar gyfer cynorthwyo unigolion gyda'u bywyd. Roedd y fideos yn cynnwys gwybodaeth am gymeradwyo gofalwyr, gwybodaeth am sgamiau, rheolau cyfyngiadau'r pandemig, sut i siopa'n ddiogel yn ystod yr argyfwng a llawer mwy. 59,000 o weithiau cafwyd y fideos hyn eu gwylio gyda llawer yn eu gweld yn ddefnyddiol.

### DEAFBLIND UK

Gyda'r £5,647 derbyniodd prosiect Deafblind UK, cynhyrchodd a dosbarthwyd hwy becynnau gwybodaeth i unigolion dall a byddar ar draws arfordir sir Conwy a sir Ddinbych. Roedd y pecyn gwybodaeth yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol gan elusennau synhwyrai, elusennau gofalwyr, GIG, tîm lles, Gwasanaethau Cymdeithasol, Canolfan Adnoddau Anableddau a gwasanaethau gwirfoddolwyr y sir yn ogystal â chysylltiadau llinellau cymorth. Cynorthwyid tua 400 o unigolion gyda'r pecynnau gwybodaeth, ac roedd modd cael y pecyn yn ddigidol oedd yn galluogi iddynt gyrraedd cynulleidfa ehangach.

Yn sicr mae'r pecynnau hyn wedi bod o fudd i dderbynwyr y pecynnau i wneud bywyd yn haws gan fod y wybodaeth i gyd mewn un lle. Dywed derbyniwr "Dwi wedi bod yn chwilio am ychydig o'r wybodaeth hyn ar y cyfrifiadur, ond nid wyf yn hynod o dda am wneud hynny, felly mae'n wych i gael o gyd yn fy llaw fel hyn".





### GOFAL CANSER TENOVUS

Er mwyn darparu'r prosiect i helpu pobl sydd â chanser i gael cymorth, derbyniodd Gofal Canser Tenovus £8,000. Darparodd nhw wybodaeth am bedwar gwasanaeth arbenigol canser sef, Lein Cymorth Rhadffon Canser, Gwasanaeth Galw yn ôl, Côr Rhith Ganu gyda Ni a Tele-Friend. Mae'r holl wasanaethau, heb law am y côr rhithiol, yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli a alluogi unigolion i ddatblygu sgiliau newydd neu gwella sgiliau sy'n bodoli eisoes. Bydd y prosiect hwn yn darparu mynediad ar y pryd i wasanaethau cymorth arbenigol amrywiol yn ystod cyfnod anodd argyfwng Covid 19.